------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2, Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 16 Tachwedd 2023

Amser: 09.30 - 12.40

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Lleu Williams,** Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDiwylliant@senedd.cymru

## Cofrestru cyn y cyfarfod

(09.15 - 09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth gyda'r BBC

(09.30 - 11.00) (Tudalennau 1 - 18)

- Tim Davie, Cyfarwyddwr Cyffredinol, BBC
- Y Fonesig Elan Closs Stephens, Cadeirydd Dros Dro, BBC
- Rhuanedd Richards, Cyfarwyddwr, BBC Cymru Wales

Dogfennau atodol:

- Papur briffio gan Ymchwil y Senedd: Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru

## Egwyl

(11.00 - 11.10)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth gydag ITV

(11.10 - 12.10) (Tudalennau 19 - 32)

- Phil Henfrey, Pennaeth Newyddion a Rhaglenni, ITV Cymru Wales
- Magnus Brooke, Cyfarwyddwr Grŵp Strategaeth, Polisi a Rheoleiddio, ITV

Dogfennau atodol:

- Papur briffio gan Ymchwil y Senedd: Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru

## 4 Papurau i'w nodi

(12.10)

### 4.1 Llinell Gwasanaeth Cymraeg y DU gan HSBC

(Tudalennau 33 - 34)

Dogfennau atodol:

- Llythyr gan HSBC: Llinell Gwasanaeth Cymraeg y DU gan HSBC - 8 Tachwedd 2023 (Saesneg yn unig)

### 4.2 Cyngor Celfyddydau Cymru: Adolygiad Buddsoddi

(Tudalennau 35 - 36)

Dogfennau atodol:

- Ymateb gan Gyngor Celfyddydau Cymru: Cyngor Celfyddydau Cymru: Adolygiad Buddsoddi - 18 Hydref 2023

### 4.3 Creu Cymru: Adroddiad Effaith Hynt

(Tudalennau 37 - 57)

Dogfennau atodol:

- Llythyr gan Creu Cymru: Adroddiad Effaith Hynt - 6 Tachwedd 2023
  Creu Cymru: Adroddiad Effaith Hynt: Crynodeb Gweithredol

### 4.4 Strategaeth Ddiwylliannol i Gymru

(Tudalennau 58 - 60)

Dogfennau atodol:

- Llythyr gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Strategaeth Ddiwylliannol i Gymru - 24 Hydref 2023
- Ymateb at Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Strategaeth Ddiwylliannol i Gymru - 24 Hydref 2023

### 4.5 Model ariannu cylchgronau Cyngor Llyfrau Cymru

(Tudalennau 61 - 63)

Dogfennau atodol:

- Llythyr gan Adolygiad Celfyddydau Cymru: Model ariannu cylchgronau Cyngor Llyfrau Cymru - 8 Tachwedd 2023 (Saesneg yn unig)

### 4.6 Cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru

(Tudalen 64)

Dogfennau atodol:

- Ymweliadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru - Hydref 2023 (Saesneg yn unig)

### 4.7 Cefnogaeth yn y dyfodol i Duolingo

(Tudalennau 65 - 66)

Dogfennau atodol:

- Llythyr at Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Cefnogaeth yn y dyfodol i Duolingo - 25 Hydref 2023

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

(12.10)

## 6 Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru: trafod y dystiolaeth

(12.10 - 12.30)

## 7 Trafod y flaenraglen waith ar gyfer gwanwyn 2024

(12.30 - 12.40) (Tudalennau 67 - 71)

Dogfennau atodol:

- Blaenraglen waith: Gwanwyn a haf 2024

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

HSBC UK

Delyth Jewell MS
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

8 November 2023

Dear Delyth,

I am writing to let you know that HSBC UK is today announcing we will no longer be offering a Welsh speaking customer service phone line, as of 15 January 2024.

I would like to assure you that this decision has not been taken lightly. We strive to tailor our services to meet our customers' needs, and after an in-depth review of our Welsh speaking customer service phone line, we have found this line is no longer being fully utilised. We have seen a steady decline in usage – we receive 22 calls into the line each day, compared to 18,000 into our English-speaking lines, and 73% of service users only call once or twice a year.

After 15 January, if customers need to call us, they will still receive the service they are used to, but in English. Our English-speaking agents will be able to assist with any customer banking needs.

We recognise that for some customers, banking in Welsh is still their preference, so we can arrange a call-back in Welsh, within 3 working days, to help with any questions they may have. Whilst we understand it is not their first choice, we have confirmed that all customers are able to bank in English.

We appreciate change can be difficult, and therefore we have created an outreach programme to support specific customers who hold vulnerabilities or call frequently. This will involve a personalised call to advise them of this change, how they can continue to contact us, including alternative ways to bank with us, and addressing any specific concerns they may have. We would like to reassure you that all the other Welsh services we offer will remain in place, including Welsh speaking colleagues in half of our Welsh branches, responding to Welsh customer correspondence in Welsh, and some of our branches in Wales offering a full translation service.


I am sorry to be writing with what I know will be disappointing news and want to reassure you that we remain fully committed to serving our customers in all parts of the UK. We are continuing to invest in our UK business and in 2024, our primary focus is to improve the experience and outcomes for our customers. This includes enhancing our digital self-service capabilities, increasing the availability and responsiveness of our telephony teams, and supporting our customers through the cost-of-living crisis. This will be a pivotal year as we transform our business to benefit our customers, now and in the future.

**HSBC UK Bank plc**
1 Centenary Square, Birmingham, B1 1HQ
*Registered in England number 9928412. Registered Office: 1 Centenary Square, Birmingham, B1 1HQ*
*Authorised by the Prudential Regulation Authority and regulated by the Financial Conduct Authority and the Prudential Regulation Authority*

If you would like to discuss any of the points raised above, please contact political.engagement@hsbc.com.

Yours sincerely,

Oliemata O’Donoghue



Managing Director, Wealth and Personal Banking, HSBC UK

**HSBC UK Bank plc**
1 Centenary Square, Birmingham, B1 1HQ
*Registered in England number 9928412. Registered Office: 1 Centenary Square, Birmingham, B1 1HQ*
*Authorised by the Prudential Regulation Authority and regulated by the Financial Conduct Authority and the Prudential Regulation Authority*

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

18 Hydref 2023

Delyth Jewell AS
Cadeirydd Pwyllgor y Gymraeg, Diwylliant, Cyfathrebu, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

Drwy e-bost

Annwyl Delyth Jewell AS

**Parthed: Briffiad Cyngor Celfyddydau Cymru am Adolygiad Buddsoddi 2023**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Hydref ynglŷn â'r uchod ac am y cyfle i ddiweddaru'r Pwyllgor am waith ein Hadolygiad Buddsoddi.

Mae'r wybodaeth ychwanegol rydych wedi gofyn amdani isod.

Mae copi o'r cynigion amodol a wnaethom i'r sefydliadau a fu'n llwyddiannus yn eu ceisiadau bellach wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan: Adroddiad a Phenderfyniadau Adolygiad Buddsoddi 2023. Mae'r adroddiad yna hefyd yn rhoi gwybodaeth am y rhesymeg dros ein penderfyniadau ariannu a'n camau dilynol yn yr Adolygiad Buddsoddi. Mae crynodeb o'r cynigion amodol ar dudalen 43 o'r Adroddiad. Mae'r cynigion yma'n amodol wrth inni aros am ganlyniadau unrhyw apeliadau a allai ddod yn ein proses apelio a chadarnhad o'n harian ni ar gyfer 2024/25 gan Lywodraeth Cymru.

Isod mae rhestr o'r arian rydym wedi'i roi i Flaenau Gwent o Ebrill 2022 hyd yma. Mae'r rhestr yma'n cynnwys arian o'n holl raglenni cyfredol gan gynnwys arian cyfalaf, y Celfyddydau ac Iechyd, Dysgu Creadigol a'n rhaglenni Loteri cyffredinol sydd ar agor.

| | |
|---|---|
| Loteri a Grant mewn Cymorth (gan gynnwys y Celfyddydau ac Iechyd) | £134,657 |
| Cyfalaf | £84,906 |
| Dysgu Creadigol | £24,200 |
| Noson Allan | £6,350 |
| **Cyfanswm** | **£250,113** |

Plas Bute, Caerdydd CF10 5AL
Ffôn: 0845 8734 900
Ffacs: 029 2044 1400
Minicom: 029 2045 1023
Ebost: gwybodaeth@celfcymru.org.uk
Gwefan: www.cyngorcelfyddydaucymru.org.uk

Bute Place, Cardiff CF10 5AL
Tel: 0845 8734 900
Fax: 029 2044 1400
Minicom: 029 2045 1023
Email: info@artswales.org.uk
Website: www.artscouncilofwales.org.uk

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Supported by The National Lottery
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol

BUDDSODDWYR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Swyddfeydd Lleol/Local Offices:
Caerdydd/Cardiff, Bae Colwyn/Colwyn Bay, Caerfyrddin/Carmarthen
Rhif Elusen Gofrestredig/Registered Charity Number: 1034245

Mewn rhai achosion, mae ein grantiau'n cefnogi gweithgarwch sy'n digwydd mewn rhagor nag un ardal. Felly, rydym wedi cynnwys y grantiau lle mae 10% neu ragor o weithgarwch y prosiect yn digwydd ym Mlaenau Gwent ac wedi cyfrifo eu swm yn ôl y ganran a oedd o fudd uniongyrchol i Flaenau Gwent.

Yn y tabl uchod hefyd mae cyfanswm o £20,000 o arian Dysgu Creadigol sy'n dod o 2 grant Ysgolion Creadigol Arweiniol a roddwyd cyn Ebrill 2022 ond bod y gweithgarwch yn parhau a hefyd £4,200 ar gyfer 5 ysgol drwy ein cronfa Ewch i Weld.

Mae Noson Allan yn gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol i helpu grwpiau o wirfoddolwyr ledled Cymru i ddod â'r celfyddydau i ganol eu cymunedau a llwyfannu perfformiadau mewn neuaddau cymunedol a phentrefi a lleoliadau celfyddydol anhraddodiadol eraill. Mae'r cynllun wedi cefnogi 7 digwyddiad am gyfanswm o £6,350.

Mae manylion yr erthygl yn y Lancet am swyddogaeth y celfyddydau i hyrwyddo iechyd da yng Nghymru i'w gweld yma.

Fel y gwyddoch, drwy 6 egwyddor a 5 ffactor cydbwyso'r Adolygiad Buddsoddi a fydd yn sail i'n gwaith yn y dyfodol, ein nod yw y bydd ein harian o fudd i holl gymunedau Cymru. Rydym yn cydnabod bod ardaloedd difreintiedig nad oes ganddynt yn rhy aml gyfleoedd celfyddydol. Rydym am weld ymgorffori seilwaith a gweithgarwch cynaliadwy ar draws lleoliadau gwledig a threfol gan sicrhau y bydd cyfleoedd yn y celfyddydau ar gyfer pobl hen ac ifanc a chenedlaethau'r dyfodol ble bynnag y bônt yn byw. Lle na chyflawnwyd hyn yn gyffredinol drwy gynigion yr Adolygiad Buddsoddi, cyhoeddom yn ein Hadroddiad ein bod wedi ymrwymo i wneud ymyriadau strategol ychwanegol drwy raglenni gwaith targedol. Bydd y gwaith cychwynnol arnynt yn mynd rhagddo dros y misoedd nesaf a'r flwyddyn ariannol newydd.

Yn y cyfamser, hyderaf fod hyn yn rhoi'r wybodaeth ychwanegol a geisioch a rhowch wybod i mi os oes angen unrhyw beth pellach arnoch ar hyn o bryd.

Yn gywir

Dafydd Rhys

**Prif Weirthedwr**
**Cyngor Celfyddydau Cymru**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

*Yn Gosod y Llwyfan I'r Celfyddydau Perfformio yng Nghymru*
*Setting the Stage for the Performing Arts in Wales*

6/11/23

Ynghylch: **Adroddiad Effaith Hynt**

Mae Creu Cymru yn falch iawn o allu rhannu ein Hadroddiad Effaith newydd sbon ar gyfer Hynt, y cynllun mynediad cenedlaethol sy'n gweithio gyda theatrau a chanolfannau celfyddydau yng Nghymru i sicrhau bod cynnig cyson ar gael i ymwelwyr sydd â gofynion mynediad, a'u cyfeillion hanfodol.

Yr Adroddiad Effaith yw'r tro cyntaf i ni werthuso'r cynllun fel hyn. Rydyn ni wedi gweld y pŵer y gall mynediad at theatr a'r celfyddydau ei drawsnewid, ac roedd yn gyfle i atgyfnerthu ein stori, rhannu straeon ein defnyddwyr, ein lleoliadau a'n rhanddeiliaid. I rannu'r llwyddiannau a dangos beth sy'n wych, yn unigryw ac yn feiddgar am gynllun Hynt.

Mae Hynt yn Gynllun gan Gyngor Celfyddydau Cymru, a reolir gan Creu Cymru mewn partneriaeth â Diverse Cymru. Ym mis Mawrth 2014, cafodd Creu Cymru ei benodi gan Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC) i weithio mewn partneriaeth â Diverse Cymru i ddarparu un cynllun hygyrchedd cenedlaethol ar gyfer cwsmeriaid ag anableddau a'u cyfeillion hanfodol. Datblygwyd Hynt gan a gyda phobl anabl, y trydydd sector, theatrau a chanolfannau celfyddydau.

Mae Hynt hefyd yn adnodd i unrhyw un sy'n awyddus i gael gwybodaeth neu newyddion am hygyrchedd ym myd y celfyddydau. Mae'r wefan yn cynnwys rhestr o'r holl berfformiadau hygyrch, a hefyd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am hygyrchedd mewn lleoliadau er mwyn helpu i gynllunio ymweliad. Drwy e-ddiweddariadau rheolaidd, gwefan Hynt a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, mae Hynt yn darparu gwybodaeth berthnasol a chyfredol am hygyrchedd ym myd y celfyddydau a'r theatr.
Mae Hynt yn fenter dan arweiniad cymheiriaid sydd wedi'i seilio ar y model cymdeithasol o anabledd. Mae'n gweithio law yn llaw â phobl anabl, gofalwyr a'r trydydd sector i wella ansawdd profiadau mewn theatrau a chanolfannau celfyddydau i unrhyw un sydd â gofynion hygyrchedd.

Ym mis Hydref 2023, mae Hynt wedi cyhoeddi 29,866 o gardiau i aelodau er mwyn iddynt allu defnyddio eu cardiau Hynt mewn dros 41 o theatrau, canolfannau celfyddydau a lleoliadau cyswllt ledled Cymru.

Mae Creu Cymru yn hyrwyddo'r celfyddydau perfformio yng Nghymru. Mae wedi'i greu fel corff aelodaeth. Mae aelodau Creu Cymru yn cynrychioli bron pob un o ganolfannau celfyddydau a theatrau proffesiynol y wlad, ynghyd â chwmnïau cynhyrchu, ar wahanol raddfeydd. Nod Creu Cymru yw bod yn rhwydwaith bywiog a blaenllaw o weithwyr proffesiynol ym myd y celfyddydau perfformio ar draws Cymru.

Rydym yn ddiolchgar i Arts Council England am ariannu'r adroddiad hwn ac i Abigail Tweed – Mileston Tweed a Mark Richardson – Social Impact Consulting am gynnal adroddiad mor gynhwysfawr.

Dyma rai o uchafbwyntiau anhygoel yr adroddiad:

- Dywedodd 76% o aelodau fod bod yn rhan o Hynt wedi gwella eu mynediad at ddiwylliant.

*Blwch S.B. 242/P.O. Box 242, Aberystwyth, Ceredigion SY23 9AX*
**T** 01970 822222 **E** post@creucymru.com **W** creucymru.com
*Cwmni Cyfyngedig trwy warant* / Company Limited by Guarantee: 05125340
*Rhif Cofrestru TAW* / VAT Registration No. 939 2518 95
*Rhif Elusen Gofrestredig* / Registered Charity No. 1135304

- Byddai 89% yn mynd i'r theatr yn llai aml os na fyddai ganddyn nhw gerdyn Hynt, a fyddai 14% ddim yn mynd o gwbl.
- Mae 82% yn dweud bod mynd i'r theatr yn rhywbeth mwy fforddiadwy yn sgil Hynt.
- Mae 68% o aelodau'n dweud bod Hynt yn gwella eu mynediad ffisegol i leoliadau.
- Mae 52% yn dweud eu bod yn gallu cael gafael ar gynnwys yn well.
- Mae 81% o aelodau'n dweud bod Hynt yn cynyddu lefel y rhyngweithio cymdeithasol yn eu bywyd.

O ganlyniad i fod yn rhan o gynllun Hynt, roedd nifer yr ymweliadau â theatr wedi cynyddu 75% ymysg unigolion sy'n aelodau o Hynt. Roedd hyn wedi arwain at **144,000** yn fwy o ymweliadau â'r theatr ledled Cymru, gyda hanner ohonyn nhw'n docynnau pris llawn. Dywedodd 58% o aelodau eu bod wedi ymweld â lleoliad newydd o ganlyniad i Hynt.

Am bob tocyn am ddim roedd lleoliadau'n ei roi i aelodau Hynt, roedden nhw'n gwneud **£23.53** o refeniw ychwanegol ar gyfartaledd.

Hefyd, mae'r economïau lleol o amgylch lleoliadau Hynt yn gweld budd o £3,261,200 y flwyddyn.

**Am bob £1 sy'n cael ei gwario ar Hynt, mae £6.05 o werth cymdeithasol yn cael ei greu.**

Mae canolfannau Hynt yn cynhyrchu £42.33 mewn gwerth ychwanegol am bob tocyn am ddim maent yn ei roi.

Rydym wedi atodi crynodeb gweithredol yr adroddiad. Gellir gweld yr adroddiad llawn yma: https://arts.wales/cy

Byddem yn hapus iawn i drafod yr adroddiad ymhellach neu i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych am y cynllun.

Cofion gorau,

Louise Miles-Payne, Cyfarwyddwr, Creu Cymru

*Blwch S.B. 242/P.O. Box 242, Aberystwyth, Ceredigion SY23 9AX*
**T** 01970 822222 **E** post@creucymru.com **W** creucymru.com
*Cwmni Cyfyngedig trwy warant* / Company Limited by Guarantee: 05125340
*Rhif Cofrestru TAW* / VAT Registration No. 939 2515 05
*Rhif Elusen Gofrestredig* / Registered Charity No. 1135304

hynt

# ADRODDIAD EFFAITH HYNT




# CRYNODEB GWEITHREDOL

# TABL CYNNWYS

T.1
Cyflwyniad

T.2
Pencampwr Hygyrchedd i'r Celfyddydau yn y DU

T.3
Damcaniaeth newid

T.4
Bod yn fwy cynhwysol

T.5
Cyrhaeddiad Hynt

T.6
Dosbarthiad Daearyddol

T.7
Dosbarthiad Lleoliadau Hynt

T.8
Mynediad at y Celfyddydau

T.9
Gwella Ansawdd Bywyd

T.10
Cyfeillion Hanfodol

T.11
Lleoliadau

T.12
Elw cymdeithasol ar fuddsoddiad

T.13
Elw cymdeithasol ar fuddsoddiad

T.14
Elw cymdeithasol ar fuddsoddiad

T.15
Argymhellion

T.16
Argymhellion

T.17
Cydnabyddiaethau

# CYFLWYNIAD

**Mae Hynt yn Gynllun gan Gyngor Celfyddydau Cymru, a reolir gan Creu Cymru mewn partneriaeth â Diverse Cymru. Mae Hynt yn gynllun hygyrchedd cenedlaethol sy'n gweithio gyda theatrau a chanolfannau celfyddydau yng Nghymru er mwyn sicrhau bod darpariaeth gyson ar gael i ymwelwyr sydd â nam neu ofyniad hygyrchedd penodol. Mae gan aelodau Hynt hawl i gael tocyn am ddim, i gynorthwyydd personol neu ofalwr ym mhob theatr a chanolfan gelfyddydau sy'n cymryd rhan yn y cynllun. Mae Hynt yn creu effaith, nid yn unig i unigolion sy'n aelodau a'u cyfeillion hanfodol, ond hefyd ar gyfer lleoliadau a'r economi leol.**

Creu Cymru yw partner arweiniol cynllun Hynt, ac mae'n cyflogi aelod o staff sy'n rheoli'r cynllun o ddydd i ddydd. Mae Creu Cymru yn hyrwyddo'r celfyddydau perfformio yng Nghymru. Mae wedi'i greu fel corff aelodaeth. Mae aelodau Creu Cymru yn cynrychioli bron pob un o ganolfannau celfyddydau a theatrau proffesiynol y wlad, ynghyd â chwmnïau cynhyrchu, ar wahanol raddfeydd. Nod Creu Cymru yw bod yn rhwydwaith bywiog a blaenllaw o weithwyr proffesiynol ym myd y celfyddydau perfformio ar draws Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn dogfennu'r ymchwil a gynhaliwyd rhwng mis Mai 2022 a mis Ebrill 2023 i edrych ar effaith cynllun Hynt yng Nghymru.

Nod yr ymchwil oedd deall pa mor effeithiol ac effeithlon yw'r cynllun drwy sgyrsiau â rhanddeiliaid, a chynnal dadansoddiad meintiol o'r data a oedd ar gael er mwyn cynnal astudiaeth a oedd yn ystyried yr Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi (SROI) yng nghyswllt cynllun Hynt.

Gofynnwyd i aelodau cynllun Hynt, cyfeillion hanfodol aelodau Hynt, pobl nad ydynt yn aelodau o Hynt sydd â gofynion hygyrchedd, lleoliadau Hynt a phartneriaid Hynt am eu barn am effaith, cynnwys, arddull a holl brofiad y cynllun hwn. Cynhaliwyd cyfweliadau unigol a grwpiau ffocws er mwyn cael y sgyrsiau hyn, ac mae eu barn wedi cael ei ddefnyddio fel sail i'r adroddiad.

Abigail Tweed – Cyfarwyddwr, Milestone Tweed
Mark Richardson – Cyfarwyddwr, Social Impact Consulting

Rydyn ni'n ddiolchgar i Arts Council England am ariannu'r adroddiad hwn.

# ANDREW MILLER

## HYRWYDDWR HYGYRCHEDD I'R CELFYDDYDAU YN Y DU

*Roedd Hynt yn gynllun arloesol gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn 2014 ac fel aelod o'r Cyngor a'i cymeradwyodd, rwy'n falch iawn o'r holl gyflawniadau a restrir yn yr adroddiad hwn. Cefais fy nghyffwrdd gan dystiolaeth Peter ynghylch sut mae aelodaeth o Hynt wedi adfer ei annibyniaeth a'i ymdeimlad o urddas. Roeddwn yr un mor falch o weld sut y mae Hynt wedi hybu busnes yn Theatr Clwyd a lleoliadau eraill.*

*Mae'r gwerthusiad hwn hefyd yn darparu data hanfodol a fydd yn siapio fersiwn y DU o Hynt rwy'n ei hyrwyddo, gyda gwersi pwysig ar bob tudalen, fel sut mae pob tocyn cyfaill am ddim a gyhoeddir yn cynhyrchu incwm eilaidd sylweddol ar gyfer lleoliadau.*

*Mae Hynt wedi creu gwerth economaidd a chymdeithasol gwirioneddol. Mae wedi annog lleoliadau yng Nghymru i wella eu hygyrchedd, ond gorau oll, mae wedi rhoi gwell mynediad at ddiwylliant i bron i 30,000 o bobl anabl. Mae Hynt yn llwyddiant ysgubol i Gymru.*



**Llun gan: Tim Meacock**

# DAMCANIAETH NEWID

Pwrpas Hynt yw gwneud y celfyddydau yng Nghymru yn fwy hygyrch i bobl F/fyddar, anabl a niwrowahanol.

| Rhanddeiliaid | Allbynnau | Canlyniadau | Effaith |
|---|---|---|---|
| **Unigolion sy'n** Aelodau o Hynt – Pobl o'r gymuned F/fyddar ac anabl sy'n wynebu rhwystrau rhag cael mynediad at y celfyddydau yng Nghymru | Nifer yr aelodau<br>Demograffeg yr unigolion sy'n aelodau o Hynt<br>Nifer yr ymweliadau â'r theatr | Profiad o'r celfyddydau<br>Ansawdd y profiad o'r celfyddydau<br>Gwell bywyd cymdeithasol<br>Bywyd o well ansawdd<br>Hunanhyder<br>Llai o deimlad o wahaniaethu | **Mae pobl F/fyddar, anabl a niwrowahanol yn cael profiad mwy cyflawn a chyson o'r celfyddydau yng Nghymru, sy'n arwain at well llesiant a bywyd o well ansawdd.** |
| **Cyfeillion Hanfodol** – Cyfeillion sy'n mynd gydag unigolion sy'n aelodau i ddarparu cymorth a'u galluogi i gael mynediad | Nifer y cyfeillion hanfodol<br>Demograffeg cyfeillion hanfodol<br>Nifer yr ymweliadau â'r theatr | Profiad o'r celfyddydau<br>Gwell bywyd cymdeithasol | |
| **Lleoliadau** - Theatrau, canolfannau celfyddydau a lleoliadau cyngerdd sy'n aelodau o gynllun Hynt | Demograffeg yr unigolion sy'n aelodau o Hynt<br>Gwerthiant Tocynnau a gwariant dewisol<br>Gwell gwasanaeth i gwsmeriaid | Cynulleidfa fwy amrywiol<br>Mwy o incwm<br>Gwell enw da | **Mae theatrau a lleoliadau cyngerdd yn denu cynulleidfa ehangach, fwy amrywiol, ac yn derbyn mwy o incwm.** |
| **Yr Economi** – swyddi a busnesau lleol | Cynnydd mewn ymweliadau â'r theatr | Mwy o wariant yn yr ardal leol | **Mae economïau lleol yn fwy cydnerth.** |

# BOD YN FWY CYNHWYSOL

Mae pob unigolyn sy'n aelod o Hynt yn wynebu rhwystrau corfforol neu feddyliol rhag mynd i'r theatr, a chael mynediad at y celfyddydau'n ehangach. Adeg yr adroddiad roedd 23,536 o unigolion sy'n aelodau o Hynt. O'r rhain...

| | | |
|---|---|---|
| **Defnyddwyr cadair olwyn** | 6,761 | 29% |
| **B/byddar** | 2,566 | 11% |
| **Iaith Arwyddion Prydain** | 393 | 2% |
| **Angen perfformiad â chapsiynau caeedig** | 693 | 3% |
| **Angen disgrifiadau sain** | 1,060 | 5% |
| **Angen perfformiad hamddenol** | 4,150 | 18% |
| **CYFANSWM YR UNIGOLION SY'N AELODAU** | **23,536** | **100%** |

Mae arolwg poblogaeth Llywodraeth Cymru yn rhestru bod gan 422,300 o bobl rhwng 16 a 54 oed yng Nghymru anabledd, ac mae 120,900 ohonynt yn cael eu hystyried o fod ag anabledd corfforol[i]. Ni fydd angen Hynt ar bob un o'r bobl hyn er mwyn gallu mynd i'r theatr, ac mae pobl eraill nad ydyn nhw wedi'u cynnwys yn y data hwn, ond a fyddai'n cael budd o Hynt. Gan ddefnyddio'r ffigur hwn fel meincnod, llai na 6% o'r rheini a fyddai'n cael budd o Hynt sy'n defnyddio'r cynllun ar hyn o bryd.

## Cyrhaeddiad Hynt


Mae'n anodd dehongli ystadegau anabledd penodol, fodd bynnag, gan ddefnyddio'r data gorau sydd ar gael:

| Anabledd / Angen | Unigolion sy'n aelodau | Cymru | % o'r boblogaeth y mae Hynt yn ei chyrraedd |
|---|---|---|---|
| Anabledd | 22,124 | 422,300 | 5.2% |
| B/byddar / Trwm eu Clyw | 2,566 | 575,000 | 0.4% |
| Siaradwr Iaith Arwyddion Prydain | 363 | 4,000 | 9.8% |
| Defnyddio cadair olwyn | 6,761 | 59,584 | 11.3% |
| Colli golwg / Disgrifiad sain | 1,060 | 106,000 | 1.0% |

[i] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Disability/disabilitystatus-by-region

# DOSBARTHIAD DAEARYDDOL

Mae aelodaeth Hynt yn adlewyrchu dosbarthiad y boblogaeth ledled Cymru.




| Ardal | Rhanbarth | Unigolion sy'n Aelodau o Hynt | % o Aelodau Hynt | Y Boblogaeth | % y Boblogaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| CH | Y Gogledd | 1,320 | 6% | 130,388 | 4% |
| LL | Y Gogledd | 3,155 | 15% | 537,467 | 18% |
| LD | Y Canolbarth | 158 | 1% | 49,792 | 2% |
| SY | Y Canolbarth | 590 | 3% | 120,905 | 4% |
| CF | Y De-ddwyrain | 7,801 | 36% | 1,005,334 | 33% |
| NP | Y De-ddwyrain | 2,501 | 12% | 488,368 | 16% |
| SA | Y De-orllewin | 6,121 | 28% | 730,232 | 24% |
| **Cyfanswm** | | **21,646** | | **3,062,486** | |

# DOSBARTHIAD LLEOLIADAU HYNT

**Mae lleoliadau Hynt wedi'u gwasgaru'n gyfartal ar draws pedwar rhanbarth Cymru, wrth gymharu â'r boblogaeth.**

Ar gyfartaledd, mae aelodau Hynt yn cael tua 0.8% o'r tocynnau mewn lleoliad sy'n cymryd rhan yn y cynllun.

| Ardal | Nifer o Lleoliadau | % y Lleoliadau | % o Aelodau Hynt | % o Boblogaeth Cymru |
|---|---|---|---|---|
| Y Gogledd | 7 | 17% | 21% | 22% |
| Y Canolbarth | 5 | 12% | 3% | 6% |
| Y De-ddwyrain | 19 | 46% | 48% | 49% |
| Y De-orllewin | 10 | 24% | 28% | 24% |
| **Cyfanswm** | 41 | 100% | 100% | 100% |

# MYNEDIAD AT Y CELFYDDYDAU


- Dywedodd **76%** o unigolion sy'n aelodau fod bod yn rhan o Hynt wedi gwella eu mynediad at ddiwylliant.
- Byddai **89%** yn mynd i'r theatr yn llai aml os na fyddai ganddyn nhw gerdyn Hynt, a fyddai **14%** ddim yn mynd o gwbl.
- Mae **82%** yn dweud bod mynd i'r theatr yn rhywbeth mwy fforddiadwy yn sgil Hynt.
- Mae **68%** o aelodau'n dweud bod Hynt yn gwella eu mynediad ffisegol i leoliadau.
- Mae **52%** yn dweud eu bod yn gallu cael gafael ar gynnwys yn well.

Heb gerdyn Hynt fyddwn i ddim yn gallu ymweld mor aml, oherwydd y cymorth ariannol.

Rydw i'n gallu mynd i fwy o ddigwyddiadau gyda gofalwr gan fod un tocyn am ddim.

Mae gen i anabledd corfforol, mae angen cymorth arna i bob amser. Os nad oedd gen i'r cerdyn Hynt, yna fyddwn i ddim yn gallu fforddio mynd.

Mae rhoi cynnig ar bethau gwahanol wedi gweddnewid fy mywyd i. Rydw i'n gwerthfawrogi'r amrywiaeth.



# GWELLA ANSAWDD BYWYD

- Mae **73%** o aelodau'n dweud bod Hynt wedi gwella ansawdd eu bywyd
- Mae **59%** o aelodau'n dweud bod y profiad o gael cerdyn Hynt wedi gwella eu hunanhyder
- Mae **81%** o aelodau'n dweud bod Hynt yn cynyddu lefel y rhyngweithio cymdeithasol yn eu bywyd
- Mae **74%** yn dweud bod Hynt yn gwella ansawdd eu perthnasoedd
- Mae **85%** o aelodau'n dweud bod Hynt yn ei gwneud yn haws gofyn i ffrind ddod gyda nhw i'r theatr

Dydw i ddim yn bryderus ac yn nerfus bellach yn mynd i leoliadau yr oeddwn yn eu mynychu o'r blaen.

Dydw i ddim yn gallu mynd i ddigwyddiadau heb rywun i yrru a mynd gyda mi, felly mae'r tocyn cyfaill yn fy ngalluogi i gynnal perthynas â mwy o ffrindiau a gofalwyr.




Roedd iechyd meddwl yn rhywbeth mawr i fi, a does dim byd gwell na sioe fyw. Mae'n rhywbeth i edrych ymlaen ato.

# CYFEILLION HANFODOL

- Mae llawer o gyfeillion hanfodol unigolion sy'n aelodau o Hynt yn ofalwyr di-dâl.
- Mae **81%** o ofalwyr wedi teimlo'n unig neu wedi'u hynysu o ganlyniad i ofalu am anwyliaid.
- Mae dros filiwn o ofalwyr di-dâl yn y Deyrnas Unedig yn byw o dan y ffin tlodi.
- Dywedodd **77%** o unigolion sy'n aelodau fod mynd i'r theatr yn rhywbeth mwy fforddiadwy i'w ffrindiau a'u gofalwyr yn sgil cerdyn Hynt.

Mae wedi ei gwneud yn fwy fforddiadwy mynd gyda gofalwr.

Dydw i ddim yn gymwys i gael lwfans gofalwr, mae'n gorfod dod allan o fy mhensiwn i. Rydw i'n gallu fforddio un tocyn i fi, neu un i fy mab, ond ddim i'r ddau ohonon ni.

Cyn Hynt, byddai'n rhaid i mi dalu am fy hun a gofalwr ac roedd yn mynd yn rhy ddrud.



# LLEOLIADAU



- O ganlyniad i fod yn rhan o gynllun Hynt, roedd nifer yr ymweliadau â'r theatr wedi cynyddu **75%** ymysg unigolion sy'n aelodau o Hynt.
- Roedd hyn wedi arwain at **144,000** yn fwy o ymweliadau â'r theatr ledled Cymru, gyda hanner ohonyn nhw'n docynnau pris llawn.
- Dywedodd **58%** o unigolion sy'n aelodau eu bod wedi ymweld â lleoliad newydd o ganlyniad i Hynt.
- Dywedodd **56%** o unigolion sy'n aelodau eu bod yn cael gwell croeso mewn lleoliadau o ganlyniad i gynllun Hynt
- Am bob tocyn am ddim roedd lleoliadau'n ei roi i aelodau Hynt, roedden nhw'n gwneud **£23.53** o refeniw ychwanegol ar gyfartaledd.
- Hefyd, mae'r economïau lleol o amgylch lleoliadau Hynt yn gweld budd o **£3,261,200** y flwyddyn.

Mae Hynt yn ein helpu i ddod i adnabod ein cwsmeriaid a'u hanghenion. (Lleoliad)

Mae gen i fwy o hyder mewn lleoliadau sy'n rhedeg cynllun Hynt. Maen nhw'n gwerthfawrogi anawsterau symudedd ac yn eich trin ag urddas a pharch.

Rydyn ni'n awr yn croesawu pobl na fydden nhw wedi ymweld â ni fel arfer. Mae mwy o bobl anabl yn ymweld erbyn hyn. (Lleoliad)

Rydw i'n fodlon prynu'r Coke neu'r hufen iâ, oherwydd fydden ni ddim yn mynd oni bai am y tocyn am ddim. Rydyn ni'n mynd am ginio hefyd pan fyddwn ni'n cael trip.

# ELW CYMDEITHASOL AR FUDDSODDIAD



**Am bob £1 sy'n cael ei gwario ar Hynt, mae £6.05 o werth cymdeithasol yn cael ei greu**

**Mae'r cynllun yn cynhyrchu £24,018,708 o werth cymdeithasol bob blwyddyn, gan gynnwys:**

£494 o werth ar gyfer pob unigolyn sy'n aelod
£129 ar gyfer pob Cyfaill Hanfodol

Mae Hynt yn cynhyrchu £42.33 mewn gwerth ychwanegol am bob tocyn am ddim maent yn ei roi

Mae hyn yn cynnwys £23.53 o refeniw ychwanegol ar gyfer pob tocyn am ddim

Daw £3,261,200 o refeniw ychwanegol i economïau lleol bob blwyddyn o ganlyniad i Hynt

# BETH SY'N GWEITHIO A BETH SYDD DDIM



## Beth sy'n gweithio

Unigolion sy'n aelodau a Chyfeillion Hanfodol

- Mae Hynt yn cyrraedd pobl ledled Cymru ac ar draws lefelau amddifadedd
- Tocyn am ddim yn gwneud y theatr yn fforddiadwy
- Mae gan unigolion sy'n aelodau o Hynt well mynediad ffisegol at leoliadau a gwell mynediad at gynnwys
- Mae'r cynllun yn lleihau teimlo'n ynysig ac yn gwella llesiant unigolion sy'n aelodau a chyfeillion hanfodol

## Beth y gellir ei wella

Unigolion sy'n aelodau a Chyfeillion Hanfodol

- System archebu
- Marchnata Gwefan i gynyddu cyrhaeddiad
- Monitro a gwerthuso
- Angen capasiti ychwanegol yn Nhîm Hynt
- Dylid cynyddu'r cyllid a'i wneud yn fwy hirdymor

# BETH SY'N GWEITHIO A BETH SYDD DDIM



**Beth sy'n gweithio**

Lleoliadau

- Mae lleoliadau'n denu cynulleidfa newydd ac amrywiol
- Mae lleoliadau'n gwybod yn union beth sydd ei angen ar bob unigolyn sy'n aelod o Hynt
- Mae lleoliadau'n rhoi £23.53 yn ychwanegol mewn refeniw ar gyfer pob tocyn am ddim maen nhw'n ei roi

**Beth ellir ei wella**

Lleoliadau

- Cyfathrebu ac ymgysylltu â lleoliadau gan Hynt
- Hyfforddiant a chefnogaeth i leoliadau i wella arferion cynhwysol

# ARGYMHELLION

## Adolygiad o weithrediadau a threfniadau llywodraethu Hynt

- Ystyried penodi grŵp/pwyllgor datblygu i weithio drwy argymhellion yr adroddiad, i drafod â CCC y goblygiadau cyllido yn sgil yr adroddiad, ac i ystyried rhai penderfyniadau hawdd eu gweithredu i wella'r cynllun yn y tymor byr.
- Cynnull cyfarfodydd gyda phartneriaid i ddeall anghenion yr holl bartneriaid yn y cynllun ac adolygu'r cytundebau partneriaeth.
- Archwilio a gweithredu strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu priodol a chadarn.
- Ehangu'r Tîm Hynt presennol i ychwanegu capasiti.
- Ystyried ail-lansio'r cynllun, gyda gwelliannau, datblygiadau pellach ac adnoddau priodol.








## Adolygu Proses Ymgeisio Hynt

- Adolygu a diweddaru'r meini prawf cymhwysedd.
- Gweithio gydag unigolion sy'n aelodau i adolygu'r broses ymgeisio o'r dechrau i'r diwedd, ar-lein a chyda chopi caled.
- Diweddaru ac ymestyn yr wybodaeth a roddir am y meini prawf cymhwysedd a'r broses ymgeisio, a gwneud yr iaith yn fwy cynhwysol a hygyrch.
- Cynnwys dyddiad adolygu ar gyfer aelodau Hynt i ddiweddaru manylion ac anghenion, ac i leihau pryderon ynghylch twyll.

## Marchnata a Hyrwyddo

- Datblygu a gweithredu strategaeth farchnata ar gyfer lleoliadau yn ogystal ag unigolion sy'n aelodau.
- Defnyddio rhwydweithiau a sefydliadau partner i godi ymwybyddiaeth o Hynt ymysg pobl B/byddar, anabl a niwrowahanol.
- Uwchraddio'r wefan i'w gwneud yn addas i'r diben ar gyfer lleoliadau ac unigolion sy'n aelodau.
- Ystyried comisiynu gwaith pellach er mwyn deall cyfleoedd partneriaeth neu fasnachol ar gyfer y cynllun.

# ARGYMHELLION



## Monitro a gwerthuso

- Casglu data demograffig a sylfaenol ar gyfer pob aelod yn ystod y broses ymgeisio.
- Datblygu a gweithredu adnoddau mesur effaith er mwyn gallu adrodd yn fyw ar fesurau effaith allweddol:

o Pobl fyddar, anabl a niwrowahanol yn profi'r celfyddydau yng Nghymru mewn ffordd fwy cyflawn ac yn amlach.

o Mae theatrau a lleoliadau cyngerdd yn denu cynulleidfa ehangach, fwy amrywiol, ac yn derbyn mwy o incwm.

- Cynnal arolygon rheolaidd, blynyddol o bosibl, ar gyfer lleoliadau ac unigolion sy'n aelodau o Hynt er mwyn cael gwell dealltwriaeth a gwybodaeth.

## Lleoliadau

- Trafod a chydweithio mwy â lleoliadau, a rhannu'r hyn a ddysgwyd drwy'r adroddiad hwn.
- Ystyried helpu lleoliadau i feddwl am holl brofiad y cwsmer o safbwynt unigolion sy'n aelodau o Hynt ac arferion cynhwysol drwy'r sefydliad cyfan, ynghyd â'i systemau a'i brosesau. Gallai hyn gynnwys: staffio, hyfforddiant, llywodraethu, caffael, ymgysylltu creadigol, allgymorth ac addysg, trafnidiaeth a rhaglennu.
- Gweithio gyda darparwyr systemau tocynnau, asiantaethau tocynnau, hyrwyddwyr tocynnau a STAR (Secure Tickets from Authorised Retailers) i alluogi pob cwsmer i archebu ar-lein, gan sicrhau hygyrchedd llawn wrth archebu ar gyfer holl leoliadau Hynt.

## Argymhellion ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC)

- Bod CCC yn ailystyried y strategaeth gyllido o ran hyd a swm y cyllid er mwyn sicrhau cynllun cynaliadwy, effeithiol, effeithlon, integredig a chynhwysfawr. Dylai'r telerau cyllido bara am 3-5 mlynedd.
- Bod CCC a chyllidwyr yn ystyried beth arall maen nhw'n gallu ei wneud i gefnogi cynllun Hynt, yn enwedig drwy gasglu a monitro data, prosesau ymgeisio a chefnogaeth ar gyfer hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

# CYDNABYDDIAETHAU

Mae Hynt yn gynllun gan Gyngor Celfyddydau Cymru, a reolir gan Creu Cymru mewn partneriaeth â Diverse Cymru. Diolch i Arts Council England am ariannu'r adroddiad hwn. Gyda diolch i bawb a gyfrannodd at yr adroddiad hwn: aelodau Hynt, eu teuluoedd a'u ffrindiau, staff y lleoliadau, y sefydliadau a'r bobl a hwylusodd grwpiau ffocws ar ein rhan, sefydliadau partner a chydweithredwyr cynllun Hynt, Megan Merrett a Louise Miles-Payne yn Creu Cymru. Diolch yn fawr i Tim Wheeler a Phil Lofthouse yn Arts Council England, a Diane Hebb ac Amanda Loosemore am eu cefnogaeth gyda'r adroddiad hwn. Diolch hefyd i Kat Watkins a Rhian Davies yn Anabledd Cymru, Richard Hoare, Richie Turner ac Andrew Miller MBE, Hyrwyddwr Hygyrchedd Celfyddydau Prydain.

ARTS COUNCIL ENGLAND

Creu Cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cysylltu

Creu Cymru
PO Box 242
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 9AX
www.hynt.co.uk
info@hynt.co.uk
@we_are_hynt



**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref – DB-PO-0363-23

Delyth Jewell AS
Cadeirydd – Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, Yr Iaith Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
SeneddCulture@senedd.wales

24 Hydref 2023

Annwyl Delyth,

Diolch am eich cefnogaeth neithiwr wrth sicrhau bod cyhoeddiad damweiniol Adroddiad Interim y Strategaeth Ddiwylliannol yn cael ei ddatrys yn gyflym.

Wrth gwrs, rwy'n pryderu bod y camgymeriad hwn wedi digwydd. Mae'n anffodus fod dogfen fewnol na chafodd ei rhannu ymhellach nag aelodau ein Grŵp Llywio cyn hyn bellach yn y parth cyhoeddus. Gall hyn arwain at sgyrsiau anodd gyda'n rhanddeiliaid agosaf gan nad ydynt eto wedi cael cyfle i gynnig sylwadau ar gynnwys y strategaeth.

Wrth symud ymlaen, rwy'n credu ei fod yn well cytuno i fabwysiadu protocol ble rydyn ni ond yn rhannu dogfennau sydd wedi eu cyhoeddi gyda'r Pwyllgor. Rwy'n parhau yn awyddus i gynnal perthynas adaeiladol a chadarnhaol gyda'r Pwyllgor, a gobeithio y bydd ein cyfarfodydd rheolaidd yn darparu cyfle priodol i drafod materion nad ydynt eto yn y parth cyhoeddus.

Yn gywir,

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Dawn Bowden AS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth
Llywodraeth Cymru

24 Hydref 2023

**Parthed: cyhoeddi adroddiad interim ar y strategaeth ddiwylliannol, 24 Hydref 2023**

Annwyl Dawn

Diolch ichi am ddwyn i'm sylw gyhoeddi'r ddogfen uchod neithiwr, ac am eich llythyr heddiw.

Hoffwn ymddiheuro unwaith eto am y camgymeriad hwn. Gwnaethpwyd y ddogfen yn gyfyngedig cyn gynted ag y tynnwyd fy sylw at y camgymeriad. Rwy'n cydnabod yn llawn, fodd bynnag, fod y gofal yr ymdriniwyd â'r ddogfen ddrafft yn yr achos hwn yn is na'r safonau uchel a osododd swyddogion a'r Pwyllgor iddynt eu hunain, a hoffwn eich sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto.

Rwy'n ddiolchgar ichi, fel bob amser, am rannu'r wybodaeth hon â'r Pwyllgor, gan fod hyn yn helpu gyda'n dealltwriaeth ehangach o waith eich adran. Sylwaf eich bod wedi cynnig mai dim ond deunydd cyhoeddedig a gaiff ei rannu â'r Pwyllgor yn y dyfodol. Gobeithiaf y byddwn yn gallu gweithio tuag at ailadeiladu eich ymddiriedaeth a'ch hyder.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon pellach, cysylltwch â mi yn uniongyrchol neu drwy'r dulliau swyddogol.

Yn gywir,



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

WALES ARTS review

8th November 2023

**FAO: Chair of the Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

Dear Delyth Jewell,

I am writing in light of the recent decision by *Wales Arts Review*, our country's leading cultural journal, to disengage with the Books Council of Wales and its English language magazine funding facility that has provided *Wales Arts Review* with core funding since 2014. The effect of this action puts the future of the organisation in jeopardy, but we felt we had no alternative. The decision was a point of principle, but, first and foremost, it was a clarion call for the magazine and wider English language publishing sector in Wales which finds itself in increasingly dire financial health, one that we have become sure is unsustainable.

I am writing to the committee in order to help shine a light on a sector that has been dramatically let down by the body that should be working to sustain it, and which has also been crucially underfunded by Welsh Government. **I am writing in the hope that the Committee may pick up some of the questions that *Wales Arts Review* has been forced to ask of the Books Council of Wales.**

**Background**
Founded in 2012, *Wales Arts Review* has been in receipt of funding from the English language magazine fund administered by the Books Council of Wales since 2014. As a spotlight on the arts and culture of Wales for a global readership we are now being read by 300,000 people in 200 countries. *Wales Arts Review* has published over 5,000 reviews, essays and interviews by over 500 Welsh and Wales-based writers. The success of *Wales Arts Review* is a remarkable story of dedication, resilience, and passion for the arts and culture of Wales, created and published by a team who work far beyond the resources available to us. We have operated during this time, partially, on BCW grants of between £20,000 and £27,500pa.

Within this, we have given opportunities to many individuals (over forty at the last count) in the publishing industry, through internships, paid positions and structured work experience programs. Our BCW grant has been an investment, not just in the core team at *Wales Arts Review*, but in the wider creative sector in Wales, that has returned much more in terms of social and cultural capital. Furthermore, we have also provided guidance and an artistic

space to aspiring authors, artists, producers, and writers to showcase their talents on a global platform.

**Concerns**
We have become increasingly dismayed at messages coming out of BCW in the last few years signalling that there would be no increase in money available, given the **24% decrease in real terms value of the grant money in the 5 years since the last allocation**. BCW has also made it very clear that the coming years will be harder, with an increased squeeze on resources and funding. *Wales Arts Review* came to the enormously difficult decision that we would be better off closing down than trying to sustain a publication in such circumstances, and thus damaging the legacy of the work we have produced in the last decade.

Our main concerns over the systems of funding established by BCW can be broken down to these:

- The cap on what a publication can apply for in the 2023 round of funding means that *Wales Arts Review* could have only applied for less than we needed to operate on a budget commensurate with real terms increases in budgetary demands since the last round of funding was allocated. It means that applicants are not even being permitted to make our strongest case.

- The culture of conservatism at the BCW means that they are unable to make the tough decisions. Instead they keep their existing portfolio on life-support. The evidence is clear in that two of their biggest recipients of funding had to hold existential fundraisers in the last cycle.

- We believe the model for funding is a clear sign that BCW is failing in its duty to encourage and nurture innovation and creativity.

- It became clear during our initial preparations for the application that BCW has not revised, renewed, or reconsidered the remit for the application to the English language magazines fund in the past 5 years that has seen epochal cultural, political, and economic shifts in the United Kingdom and beyond. BCW has issued a near-identical set of documents pertaining to the funding as it did in 2018. We believe this is evidence of a dereliction of duty by BCW.

- *Wales Arts Review* has proven over and over that it operates a vital cultural public service and that it should be correctly funded as such. What BCW was offering instead was a system that would neither support growth nor properly fund a public service business model. I ask if that is a responsible position to take for an organisation charged with the support of the sector.

- BCW has dismissed the concerns of *Wales Arts Review* in these matters, concerns that are widespread across the sector, as evidence by Emily Trahair's editorial for Planet Magazine in 2023 in which she detailed the stresses of operating under BCW budgets, including effects on work ethics and wellbeing, contradicting Welsh Government's own Healthy Working Wales pledges.

**Questions**
I would like to encourage the Committee to consider the following questions in relation to the Books Council of Wales' funding of English language magazines.

1. Is it morally defensible that In 2022 Welsh language magazines benefitted from a pot of £385,000, whereas in 2023 English language magazines have their corresponding fund amounting to just £180,000?

2. Why has there not been an opportunity for a sector-wide debate on the need (or not) for radical restructuring as proposed in my article of Sept 23, "A New Future is Needed for Magazines in Wales"? I believe a creative and radical overhaul of the magazine sector in Wales could use the limited resources in innovative ways and produce a vibrant and robust magazine sector. BCW has shown no willingness to engage in discussions about doing things differently.

3. Given that there has been no review of the funding model, guidelines, or application remit in five years, is BCW guilty of negligence toward the English language magazine sector in Wales?

**Reflections**
We believe it is a reasonable evaluation that BCWs model for funding is a clear sign that BCW is failing in its duty to encourage and nurture innovation and creativity, and that this funding approach will only manage the decline of the English language magazines in Wales.

I would be happy to make myself available for further and deeper discussion on these points, in particular the potentialities and possibilities of reshaping the English language magazine sector.

Your sincerely,



Gary Raymond
co-founder and executive editor of *Wales Arts Review*
gary@walesartsreview.org
07794578176

Eitem 4.6

# MINISTERIAL INTERNATIONAL ENGAGEMENT

## OCTOBER 2023

## INWARD VISITS

**16 Oct** **Visit to Wales by Australian High Commissioner**
The Minister for Economy met with the High Commissioner during his visit to Wales for Wales Tech Week. Their meeting discussed opportunities for greater trade, collaboration and investment in tech & cyber.

**20 Oct** **Visit by Irish Ministers to Wales (Wales Ireland Ministerial Forum)**
The First Minister and other Cabinet members met with the Tánaiste and Minister for Foreign Affairs and Defence, and Irish Minister for Further and Higher Education, Research, Innovation and Science as part of the Wales/Ireland Ministerial Forum in North Wales. Details of the two-day programme has been published in a written statement.
Written Statement: Ireland-Wales Ministerial Forum

**26 Oct** **Visit to Wales by New Zealand High Commissioner**
The First Minister met with the High Commissioner to share learning on Universal Basic Income, the Well-being Alliance and the young vote. The High Commissioner also met with the Minister for Rural Affairs, North Wales and Trefnydd and attended Blas Cymru/ Taste of Wales event.

## OUTWARD VISITS

**05 Oct** **First Minister Visit France for Wales in France year and RWC**
The First Minister visited France to take part in a programme of events celebrating the Wales in France year and to support promotional activity surrounding the group stages of the Rugby World Cup. Details of the visit, including the visits by the Deputy Minister for Arts, Sport & Tourism and Minister for Finance & Local Government has been published in a written statement.
Written Statement: Raising the profile of Wales at the Rugby World Cup

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg:
Llywodraeth Cymru

25 Hydref 2023

**Cefnogaeth yn y dyfodol i Duolingo**

Annwyl Jeremy

Ysgrifennaf atoch yn dilyn adroddiadau diweddar na fydd Duolingo bellach yn diweddaru nac yn golygu'r cwrs Cymraeg o ddiwedd mis Hydref 2023. Fel yr wyf yn siŵr y byddwch yn cytuno, mae'r newyddion hyn yn peri pryder mawr o ystyried nifer y dysgwyr sy'n defnyddio Duolingo, naill ai'n unig neu ochr yn ochr â darpariaeth ffurfiol, i ddysgu Cymraeg.

Buaswn yn ddiolchgar pe gallech amlinellu:

- Pryd y cawsoch eich hysbysu’n gyntaf o gynlluniau Duolingo;
- Pa drafodaethau sydd wedi cael eu cynnal gennych chi neu eich swyddogion â Duolingo am y mater hwn, naill ai cyn, neu ers y cyhoeddiad hwn;
- Pa drafodaethau rydych chi wedi'u cael gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ynghylch ei rôl wrth barhau i greu cynnwys ar gyfer Duolingo;
- Pa oblygiadau posibl sy’n bodoli o ran y Ganolfan Genedlaethol pe caiff ei chynnig i helpu gyda gwaith datblygu’r cwrs Cymraeg ar Duolingo ei dderbyn.

Rydych wedi datgan yn y gorffennol y bydd y bartneriaeth rhwng Duolingo a'r Ganolfan Genedlaethol "yn creu hyd yn oed yn fwy o gyfleoedd i bobl fwynhau dysgu a defnyddio'r Gymraeg." Mae’r adnodd hwn, felly, yn rhan tyngedfennol wrth weithio tuag at yr uchelgais o sicrhau 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, sy’n nod y gwn eich bod wedi ymrwymo i’w chyflawni.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb maes o law.

Yn gywir

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon